

# CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

# YN CHUBUT

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014


**Gareth Kiff LL.B B.Add**

**Monitor Academaidd**

Prif Diwtor
Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg
Ysgol y Gymraeg
Prifysgol Caerdydd

**CYNNWYS**


1) Gorolwg Tud.2-3

2) Targedau 2014 Tud.3

3) Llwyddiannau Allweddol Tud.4-5

4) Traweffaith Y Cynllun/Ystadegau a Ffigurau Tud.6-11

5) Datblygiadau Addysg Gynradd Tud.12-15

6) Menter Patagonia Tud.16-26

7) Astudiaethau Achos Tud.27-33

8) Adroddiad Cynnydd ar Argymhellion 2013 Tud.34-36

9) Argymhellion 2014 Tud.36-37


Pwyllgor por los or 150 yr años mlynedd Comisión Chubut - Patagonia Argentina Cordillera Andes Cymru - Y Wladfa

GLANIASANT YMA I AROS / 1865 – 2015 / LOS GALESES DESEMBARCARON EN CHUBUT PARA QUEDARSE

# GOROLWG

**Er 1997, mae Prosiect yr Iaith Gymraeg (WLP) wedi bod yn hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn nhalaith Chubut, Patagonia, Yr Ariannin. Bob blwyddyn mae tri Swyddog Datblygu Iaith o Gymru yn treulio cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr yn dysgu ym Mhatagonia. Maent yn datblygu'r iaith mewn cymunedau sy'n siarad Cymraeg drwy ddysgu ffurfiol a gweithgareddau cymdeithasol anffurfiol.**

**Mae Cydlynydd Dysgu parhaol o Gymru hefyd wedi'i leoli ym Mhatagonia. Nhw sy'n gyfrifol am ansawdd y dysgu.**

**Agwedd arall ar y prosiect yw rhwydwaith o diwtoriaid o Batagonia sy'n siarad Cymraeg sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarth. Wrth ymweld â Chymru, mynychu cyrsiau Cymraeg a chymryd rhan mewn ymweliadau arsylwi ysgolion, rydym yn helpu i gynnal safonau addysgu a'r methodolegau diweddaraf sydd ar waith ym Mhatagonia.**

**Rheolir y Cynllun gan Bwyllgor yr Iaith Gymraeg sy'n cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Cymru Ariannin, Menter Patagonia a Chanolfan Cymraeg i Oedolion, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.**

**Mae'r prosiect sy'n cynnwys ymweliadau cyfatebol, addysgu a hyfforddiant wedi ennill cydnabyddiaeth a llwyddiant yn rhyngwladol.**

## Dull a maes llafur

**Rydym yn gweithio mewn tri dalgylch: yr Andes, Gaiman a Threlew. Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau o lefel dechreuwyr i gyrsiau gloywi i siaradwyr Cymraeg rhugl. Rydym yn cynnal y cyrsiau hyn yn y sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac oedolion.**

**Mae Swyddogion Datblygu'r Iaith Gymraeg yn addysgu amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys Wlpan, Pellach, Uwch a Meistroli. Defnyddir cyrsiau a luniwyd gan y Ganolfan Gymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd, wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destunau Sbaeneg a Chymraeg.**

## Cyllid

**Mae Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Cymru-Ariannin a British Council Cymru yn ariannu'r prosiect hwn, sy'n rhan o'r Rhaglen Addysg Rhyngwladol. Er nad yw llywodraeth Chubut wedi darparu cyllid uniongyrchol, mae wedi cefnogi'r gwaith o ddysgu Cymraeg yn ariannol a'r gymuned Gymraeg ehangach.**

**Hanes**

**Mae 2015 yn nodi 150 o flynyddoedd ers i'r ymsefydlwyr cyntaf o Gymru gyrraedd Patagonia.**

**Mae Cymru a Phatagonia wedi'u huno gan draddodiad, hanes ac iaith. Dechreuodd yr ymsefydlwyr parhaol gyrraedd Chubut a'r ardaloedd cyfagos ar 27 Gorffennaf, 1865. Daeth 153 o ymsefydlwyr o Gymru drosodd ar y Mimosa.**

**Bellach, ar ddechrau'r 21ain ganrif, mae tua 50,000 o boblogaeth Patagonia o dras Gymreig.**

## TARGEDAU 2014

1) **Anfon 3 Swyddog Datblygu i addysgu a threfnu gweithgareddau cymdeithasoli iaith Menter Patagonia. Yn y Dyffryn anelwyd at recriwtio un tiwtor fyddai'n arbenigo mewn datblygu addysg feithrin a chynradd yn Gaiman.**

2) **Cyflogi un Cydlynydd Dysgu yn Wladfa.**

3) **950 o ddysgwyr mewn gwersi Cymraeg.**

4) **4 berson o Batagonia i dderbyn hyfforddiant iaith ar gwrs haf dwys Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. *Gweler Pwynt 3 – Llwyddiannau Allweddol.***

5) **Sefydlu 2 bartneriaeth trwy Connecting Classrooms**



**LLWYDDIANNAU ALLWEDDOL**

1) **Anfonwyd 3 swyddog i Batagonia. Un i'r Andes 50% dysgu a 50% gwaith Menter Patagonia. 2 berson i'r Dyffryn. Un oedd y canolbwyntio 100% ar addysgu (plant meithrin a chynradd yn bennaf) a'r llall oedd yn treulio 50% o'i amser ar addysgu a 50% o'i amser ar drefnu gweithgareddau Menter Patagonia.**

2) **Cyfanswm o 1174 o bobl ar gyrsiau Cymraeg. (985 oedd y cyfanswm yn 2013) sef y nifer uchaf yn hanes y Cynllun ym mhob categori.**

**Mae hyn yn gynnydd o 19% eleni a 39% ers dechrau'r cylch 3 blynedd ( 2012-2014).(Roedd 846 o bobl yn 2011).**

3) **Mae dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion wedi denu yr ail ffigur uchaf yn hanes y Cynllun sef 268 o bobl i gymharu â 279 yn 1997 sef blwyddyn gyntaf y Cynllun. Roedd cynnydd o 54% eleni a cynnydd o 135% ers dechrau'r cylch 3 blynedd presennol.**

4) **Cynnydd yn nifer y dosbarthiadau – 90 i gymharu ag 83 yn 2013 a 79 yn 2012. Y nifer uchaf yn hanes y Cynllun.**

5) **Daeth 2 athrawes i Gymru er mwyn mynychu Cwrs Haf Canolfan Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd ( Cwrs Uwch 2 & Cwrs Gloywi) am gyfnod o 5 wythnos. Oherwydd diffyg cyllid nid oedd modd cynnig ysgoloriaethau i 4.**

6) **Connecting Classrooms – Mae dau gynllun ar y gweill sef Ysgol Feithrin Gaiman ac Ysgol Gymraeg Aberystwyth ; Coleg Camwy ac Ysgol Uwchradd Llanisien, Caerdydd ac yn ystod y flwyddyn sefydlwyd partneriaeth rhwng Ysgol yr Hendre, Trelew ac Ysgol Pentreuchaf.**

7) **Nifer o gyrsiau penodol wedi'u cynnal e.e. Swyddfeydd Twristiaeth yn Gaiman, Esquel a Threvelin, Amgueddfa Gelf Trelew, , Tai Te yn Nhrevelin a sesiynau i dywyswyr twristiaid yn Nhrelew.**

8) **Cerrig Milltir yn natblygiad addysg gynradd yn y Dyffryn ac yn Yr Andes.**
**Gweler tudalennau 12-15.**

9) **13 o oedolion wedi pasio arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd.** *Gweler y canlyniadau ar dudalennau 10-11.*

10) **Taith Yr Urdd.** Gweler tudalen 26

11) **Ymweliad gan Aelodau Seneddol San Steffan ( Pwyllgor Dethol Materion Cymreig** Gweler tudalen 30.

*12)* **Lansiwyd cynllun newydd gan Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd i gynnig ysgoloriaethau gyda nawdd hael Banc Santander i ddau fyfyriwr wirfoddoli yn Y Wladfa. Dewiswyd Angharad Lewis a Siwan Jones a cynorthwyon nhw gyda gweithgareddau addysgol a chymdeithasoli iaith yn ystod eu cyfnod yn y Dyffryn.** *Gweler eu youtube isod.*

https://www.youtube.com/watch?v=amGyCHKJNj8



**TRAWEFFAITH Y CYNLLUN**

## YSTADEGAU

**1 Cydlynydd Dysgu – Clare Vaughan**

**1 Cydlynydd Gweinyddol – Luned Gonzalez**

**3 o Athrawon a Swyddogion Menter Patagonia**

**Eluned Evans ( Yr Andes ) ( 50% addysgu a 50% Menter Patagonia)**

**Eluned Jones ( Y Dyffryn) ( 100% Addysgu)**

**Iwan Madog Jones ( Y Dyffryn ) ( 50% Addysgu a 50% Menter Patagonia)**

**29 o athrawon/tiwtoriaid lleol**

**Nifer y dosbarthiadau**:

**90 o ddosbarthiadau yn 2014 ( 83 yn 2013 a 79 yn 2012 )**

***Y nifer fwyaf yn hanes y Cynllun***

| **Gaiman**<br>**( gan gynnwys Dolavon)** | **Trelew**<br>**(gan gynnwys Rawson, Porth Madryn a Comodoro)** | **Yr Andes** |
|---|---|---|
| **39** (39) | **27** (21) | **24** (23) |

**Nifer y dysgwyr:** ***Y nifer fwyaf yn hanes y Cynllun***

| | **Gaiman** | **Trelew** | **Yr Andes** | ***CYFANSWM*** |
|---|---|---|---|---|
| 2014 | **722** | **251** | **201** | ***1174*** |
| 2013 | 657 | 171 | 157 | 985 |
| 2012 | 607 | 145 | 225 | 977 |
| 2011 | 582 | 133 | 131 | 846 |
| 2010 | 527 | 85 | 150 | 762 |
| 2009 | 474 | 76 | 153 | 703 |
| 2008 | 378 | 97 | 112 | 587 |

**Niferoedd o ran haenau oedran y dalgylchoedd:** ***Niferoedd 2013 mewn cromfachau.***

| | **Meithrin** | **Ôl feithrin** | **Plant** | **Arddegau** | **Oedolion** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | Cynradd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gaiman | 48 (61) | 36 (33) | 247 (193) | 323 (300) | 68 (70) | 722 (657) |
| Trelew | 14 (21) | 10 (12) | 113 (82) | 0 (0) | 114 (56) | 251 (171) |
| Yr Andes | 74 (21) | 5 (0) | 10 (74) | 26 (14) | 86 (48) | 201 (157) |
| Cyfanswm | 136 (103) | 51 (45) | 370 (349) | 349 (314) | 268 (174) | 1174 (985) |

**1174 yw'r cyfanswm mwyaf yn hanes y Cynllun.**

**Mae hyn yn gynnydd o 19% eleni a 39% ers dechrau'r cylch 3 blynedd ( 2012-2014). ( 846 o bobl yn 2011).**

**Roedd 573 yn dysgu yn 1997 felly ers y flwyddyn honno mae'r niferoedd wedi cynyddu gan 105%**

**Mae mwy o bobl ym mhob categori oedran.**

**Mae cynnydd amlwg (54%) wedi bod ymhlith oedolion ers y llynedd.**
*(Gweler y grid 'Niferoedd o ran lefelau iaith – Oedolion isod am ragor o fanylion).*

**Mae cynnydd amlwg ( 252% ) ar lefel Meithrin yn yr Andes ac mae hyn y adlewyrchu'r ymdrechion i sefydlu ysgol gynradd ddwyieithog yno ar hyn o bryd. Mae llai o blant cynradd ( fel arfer gwersi mewn ysgolion cyfrwng Sbaeneg ) oherwydd bod y bobl leol yn ffocysu ar greu'r ysgol ddwyieithog newydd.**

**Mae cynnydd yn Gaiman a Threlew ( Cynradd ) yn bennaf oherwydd yr ysgolion sy'n cynnig y Gymraeg fel ail iaith. Felly mae'n bwysig nodi er bod ffigurau Gaiman yn uwch ar y lefel honno dosbarthiadau ail iaith ydynt ac wrth gwrs dyna pam mae cynllun yn bodoli i droi Ysgol Feithrin Gaiman yn ysgol gynradd ddwyieithog a chadw'r plant meithrin o fewn cyfundrefn ddwyieithog a fydd yn cynhyrchu siaradwyr rhugl fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gydag Ysgol yr Hendre yn Nhrelew.**

**Niferoedd o ran lefelau iaith – Oedolion**

| | Cyn Fynediad | Mynediad (Wlpan 1) | Sylfaen (Wlpan 2) | Canolradd (Pellach) | Uwch a Meistroli | Hyfedredd (Gloywi) | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gaiman** | 8 (11) | 28 (18) | 6 (15) | 0 (0) | 8 (6) | 18 (20) | 68 (70) |
| **Trelew** | 32 (0) | 50 (31) | 15 (8) | 0 (8) | 2 (0) | 15 (9) | 114 (56) |
| **Yr Andes** | 42 (6) | 6 (12) | 7 (6) | 3 (8) | 13 (9) | 15 (7) | 86 (48) |
| **Cyfanswm** | 82 (17) | 84 (61) | 28(29) | 3 (16) | 23 (15) | 48 (36) | 268 (174) |

**268 yw'r ail ffigur uchaf yn hanes y Cynllun. Rhaid cofio mai yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun oedd y ffigur uchaf erioed sef 279 yn 1997 pan oedd y Cynllun yn newydd ac roedd oedolion yn brif ffocws y gwaith a bron hanner ( 49% ) yr holl ddysgwyr. Erbyn hyn oedolion yw rhyw 23% o holl ddysgwyr Y Wladfa.**

**Roedd cynnydd o 54% eleni a cynnydd o 135% ers dechrau'r cylch 3 blynedd presennol.**

**2011 114**

**2012 137**

**2013 174**

**2014 268**

**Yn sicr mae cyrsiau cyn-fynediad e.e. blasu a chyfarch wedi cyfrannu at y cynnydd ond yr hyn sy'n bwysig nawr yw bod y niferoedd ar y cyrsiau hyn yn dechrau arwain at lawer mwy o ddysgwyr ar lefel Mynediad a'r nod erbyn hyn yw sicrhau bod y tueddiad yn parhau er mwyn atgyfnerthu lefelau Sylfaen a Chanolradd. Mae lefelau Uwch a Hyfedredd wedi cynyddu'n dda ac yr hyn sy'n galonogol yw bod niferoedd y Dyffryn wedi aros ar fwy neu lai yr un lefel yn Gaiman ( ar ôl cynnydd sylweddol y llynedd yn sgil penodi arbenigwr Cymraeg i Oedolion) ac wedi cynyddu'n arwyddocaol (104% ) ar bob lefel ond Canolradd yn Nhrelew. Ar draws y Dyffryn mae cynnydd o 44% ers y llynedd.**

**Gofynnwyd i bwyllgorau'r Andes greu cynllun adfer niferoedd y llynedd ac mae'r ffigurau yn dystiolaeth o'r ffaith eu bod wedi gweithredu'n unol â'r argymhelliad gyda chynnydd o 79%. Eto gwelir niferoedd iach ar ddechrau ac ar ddiwedd y broses a'r her y flwyddyn nesaf fydd iddynt ailadeiladu'r lefelau yn y canol.**

**Oriau yn ôl y dalgylchoedd**

| | Gaiman (yn cynnwys Dolavon) | Trelew (yn cynnwys Rawson, Madryn a Comodoro) | Yr Andes (Esquel a Threvelin) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Meithrin** | **30 awr 45 mun** | **17 awr 30 mun** | **16** | **64 awr 15 mun** |
| **Ôl-feithrin** | **15 awr 45 mun** | **17 awr 30 mun** | **4** | **37 awr 15 mun** |
| **Plant cynradd** | **12 awr 15 mun** | **91 awr 20 mun** | **7** | **110 awr 35 mun** |
| **Arddegau** | **17 awr 50 mun** | **0** | **4** | **21 awr 50 mun)** |
| **Oedolion** | **15 awr 05 mun** | **24** | **28 awr 30 mun** | **67 awr 35 mun** |
| | **91 awr 40 mun** | **150 awr 20 mun** | **59 awr 30 mun** | **301 awr 30 mun** |

**310 awr 40 munud oedd y cyfanswm yn 2013 felly roedd gostyngiad bach eleni ond wrth gymharu â 245.16 yn 2012 a 263 yn 2011 felly gwelir bod yr oriau'n cynyddu'n sylweddol dros gyfnod o bedair blynedd.**

**ARHOLIADAU: Cymraeg i Oedolion CBAC/WJEC**

| Canlyniadau Arholiad MYNEDIAD<br>Canolfan Y Wladfa 00007 2014 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Enw | Gwrando<br>80 | Llafar<br>220 | Darllen<br>60 | Ysgrifennu<br>40 | Cyfanswm<br>400 |

| | | | | | (240 i basio) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgeisydd 1 | 60 | 206 | 56 | 36 | 358<br>LLWYDDO |
| Ymgeisydd 2 | 46 | 142 | 28 | 20 | 236<br>METHU |
| Ymgeisydd 3 | 55 | 94 | 22 | 10 | 181<br>METHU |
| Ymgeisydd 4 | 48 | 132 | 38 | 14 | 232<br>METHU |
| Ymgeisydd 5 | 43 | 111 | 34 | 12 | 200<br>METHU |
| Ymgeisydd 6 | 64 | 163 | 34 | 29 | 290<br>LLWYDDO |
| Ymgeisydd 7 | 80 | 213 | 58 | 35 | 386<br>LLWYDDO |
| Ymgeisydd 8 | 80 | 216 | 56 | 26 | 378<br>LLWYDDO |
| Methodd dau ymgeisydd o drwch blewyn ac roedd ymgeiswyr 7 ac 8 wedi sgorio'n uchel iawn. | | | | | |
| **Canlyniadau Arholiad SYLFAEN<br>Canolfan Y Wladfa 00007 2014** | | | | | |
| **Enw** | **Gwrando<br>80** | **Llafar<br>200** | **Darllen<br>60** | **Ysgrifennu<br>60** | **Cyfanswm<br>400**<br>(240 – Llwyddo<br>320 – Rhagoriaeth) |
| Ymgeisydd 9 | 42 | 121 | 34 | 28 | 225<br>Methu |
| Ymgeisydd 10 | 69 | 127 | 40 | 30 | 266<br>Llwyddo |
| Ymgeisydd 11 | 79 | 183 | 54 | 46 | 362<br>Rhagoriaeth |
| Ymgeisydd 12 | 62 | 153 | 44 | 32 | 291<br>Llwyddo |
| Ymgeisydd 13 | 67 | 129 | 39 | 25 | 260<br>Llwyddo |
| Ymgeisydd 14 | 74 | 166 | 48 | 32 | 320<br>Rhagoriaeth |
| Ymgeisydd 15 | 68 | 165 | 49 | 46 | 328<br>Rhagoriaeth |
| Ymgeisydd 16 | 51 | 150 | 42 | 37 | 280<br>Llwyddo |
| Dim ond un ymgeisydd a fethodd a dim ond gan 15 marc. | | | | | |

| **Arholiad CANOLRADD Canolfan Y Wladfa 00007 2014** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwrando<br>60** | **Tasg Sgwrsio<br>60** | **Llafar<br>160** | **Darllen<br>60** | **Ysgrifennu<br>60** | **Cyfanswm<br>400**<br>(240 Llwyddo |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 320 Rhagoriaeth) |
| Ymgeisydd 17 | 49 | 54 | 147 | 57 | 52 | 359 Rhagoriaeth |
| Ymgeisydd 18 | 20 | 50 | 143 | 44 | 47 | 304 Llwyddo |

Canlyniadau da iawn ac roedd marciau Ymgeisydd 17 yn uchel iawn.

**Argymhellion y Cydlynydd Dysgu**

1. *Bod angen annog y myfyrwyr sydd am sefyll arholiad mynychu sesiwn hyfforddi cynt lle bydd yn bosib ymarfer sgiliau'r arholiad a nid sgiliau iaith yn unig.*

2. *Bod angen i'r myfyrwyr sydd am sefyll yr arholiad fod yn barod i allu ymdopi â'r sialens wrth ystyried bod nifer ohonynt yn ifancach nag oedolion sy'n sefyll yr un arholiad yng Nghymru.*

3. *Bod angen talu ychydig bach mwy o sylw i sgiliau ysgrifennu ar y lefel Sylfaen a Chanolradd.*



Mae Jeremias Knobel, myfyriwr y Cwrs Wlpan 2 yn Ysgol Gymraeg yr Andes Esquel wedi ennill ysgoloriaeth Tom Gravell 2015. Bydd e'n treulio Tymor y Gwanwyn yn astudio yng Ngholeg Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin.

## YSGOL GYMRAEG Y GAIMAN

Y llynedd enillwyd statws swyddogol ac erbyn hyn ysgol rhif 1035 yw hi. Roedd hyn yn gam mawr ymlaen yn yr ymgyrch hir i ymestyn yr ysgol feithrin bresennol i fod yn ysgol gynradd ddwyieithog lawn.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Gymraeg y Gaiman Rhif 1035 yn addysgu plant rhwng blwydd a hanner a phump oed.

Mae'r plant yn derbyn eu addysg mewn tri dosbarth , Melyn, Gwyrdd a Choch dan ofal Celeste Filipponi ( 1.5 a 2 oed), Angélica Evans ( 3 oed ) a Judith Jones ( 4 a 5 oed).

Mae pob un o'r athrawesau uchod wedi dysgu'r Gymraeg a/neu wedi arsylwi gyda chymorth y Cynllun.

Y flwyddyn nesaf (2015) bydd yr ysgol yn derbyn plant am y tro cyntaf ym Mlwyddyn 1. Mae 10 wedi ymrestru'n barod.

Hyd yn hyn ( a bydd rhagor yn ymrestru ym m mis Chwefror 2015) cyn dechrau'r flwyddyn academaidd ym mis Mawrth dyma ffigurau'r ysgol;

| | |
|---|---|
| 1.5 – 2 oed ( oedran Ti a Fi) | 17 o blant |
| 3 oed | 13 o blant |
| 4 oed | 12 o blant |
| 5 oed ( Derbyn ) | 9 o blant |
| Blwyddyn 1 | 10 o blant |
| | |
| Cyfanswm | 61 o blant |

Penodwyd Eluned Jones yn un o'r Swyddogion Datblygu yn y Dyffryn eleni gyda nod o ddatblygu addysg ddwyieithog yno ac yn arbennig yn Gaiman. Mae blynyddoedd o brofiad gwerthfawr ganddi fel pennaeth ysgol ac mae hi wedi sefydlu unedau cynradd Cymraeg yng Nghymru.

Yn sicr roedd ei chyfraniad o safbwynt datblygiad addysg gynradd yn allweddol. Roedd hi’n cydweithio’n agos ag Ysgol yr Hendre ( Trelew) ac Ysgol Feithrin y Gaiman i sicrhau eu bod yn datblygu sgiliau ieithyddol drwy ddysgu gweithredol ar draws y cwricwlwm.

Crëwyd cyfleoedd i rannu syniadau, cyflwyno enghreifftiau o gynllunio, rhannu arfer da a datblygu strategaethau iaith mewn ffyrdd naturiol. Gweithiodd hi’n agos gydag athrawon Ysgol Feithrin Gymraeg y Gaiman drwy edrych ar y cynllunio a chreu adnoddau pwrpasol yn unol â’r galw.

Un cynllun arloesol a gyflwynwyd eleni oedd gofyn i siaradwyr Cymraeg yn Nhrelew i ymweld â phlant Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn Ysgol yr Hendre. Roedd hyn yn gyfle gwych i sicrhau bod cysylltiad rhwng y plant a’r oedolion ac yn darparu cyd-destun ystyrlon i weithgareddau pwrpasol ar gyfer bywyd ‘go iawn’ ac yn rhoi cyfle i ymarfer sgiliau ysgrifenedig a llafar trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â chreu partneriaethau cymunedol a chynyddu ymwybyddiaeth o Gymreictod.

Yn ystod y flwyddyn aeth Eluned Jones i arsylwi a chynorthwyo yn Yr Andes ac yn ystod 2015 bydd hi’n gweithio yn yr ardal honno gan ganolbwyntio ar ddatblygu addysg gynradd yno.



## Cofeb fyw 2015 – Ysgol Amlieithog Cwm Hyfryd

Mae 2015 yn 'flwyddyn fawr' i ni sydd yma ar ddwy ochr Môr yr Iwerydd ac yn falch o'n diwylliant, sef dathlu Canmlwyddiant a Hanner ers cyrhaeddiad y Cymry cyntaf i lannau Patagonia a sefydlu'r Wladfa Gymreig yna. Mae llwyth o ddigwyddiadau a fydd yn cael eu mwynhau gan niferoedd o bobl yn ystod y flwyddyn yng Nghymru ac yn yr Ariannin ond roedden ni yn yr Andes am geisio sicrhau y bydd yr iaith a'r diwylliant yn dal yma ymhen hanner can mlynedd eto, a pha ffordd well na chreu ysgol fydd yn dysgu'r plant mewn dwy iaith sef iaith gwlad yr Ariannin, y Sbaeneg, ac iaith sefydlwyr cyntaf y Dalaith, y Gymraeg?

Ers 18 o flynyddoedd bellach mae prosiect wedi cefnogi gwaith y cymunedau lleol yma yn Chubut trwy anfon athrawon a thiwtoriaid draw bob blwyddyn ac felly mae llawer o bobl leol wedi cael y cyfle i ddysgu, gwella neu loywi eu Cymraeg mewn dosbarthiadau lleol ac ar gyrsiau yng Nghymru diolch i ysgoloriaethau o Gymru. Mae rhai ohonynt nawr yn barod i gymryd yr awenau eu hunain a dechrau dysgu'r genhedlaeth nesaf felly aethpwyd ati i ddechrau gwireddu breuddwyd gyda'r gobaith y byddai ysgol gynradd llawn amser wedi'i chydnabod gan y Llywodraeth yn dechrau tyfu ym mlwyddyn y dathliadau.

Yn ystod y flwyddyn 2014 cynigiwyd mwy o oriau i'r plant lleiaf, sef plant 3 a 4 oed, ac yr oedd yr ymateb yn galonogol iawn gyda 17 o blant yn mynychu tri phrynhawn yr wythnos. Yr oedd hyn yn gyfle i'r athrawon ddechrau cynllun peilot o gynnwys elfennau addysgiadol sylfaenol yn ogystal ag iaith ac aethpwyd ati i gynnwys sesiynau symud (ymarfer corff), Mathemateg, Gwyddoniaeth, y Dyniaethau (Hanes a Daearyddiaeth) yn ogystal ag Addysg Iechyd a Chymdeithasol. Yr oedd y peilot yn ceisio cynnwys egwyddorion addysg y ddwy wlad gan barchu rheolau yr Ariannin tra'n adlewyrchu arfer orau Cymru hefyd – tipyn o gamp ond mae wedi bod yn brofiad cadarnhaol wrth weld ymateb y rhieni i fodel arall o addysg i'w plant.

Mae pobl newydd wedi ymuno â phwyllgor gwreiddiol yr ysgol oedd wedi gweithio dros wyliau'r haf (sef Ionawr a Chwefror yma!) ar y papurau angenrheidiol ac erbyn hyn rydyn ni'n aros i gael cydnabyddiaeth gan y Llywodraeth cyn dechrau gweithio yn llawn amser.

Un o'r pethau mwyaf cyffrous ydy ar ôl blynyddoedd o ddefnyddio Tŷ'r Capel fel man i gynnal gwersi – sef hen dŷ'r gweinidog cynt – mae prosiect ar waith i adeiladu adeilad newydd fydd yn gartref i'r ysgol ac i weithgareddau cymdeithasol y Cwm. Y mae'r Llywodraeth wedi cynnig cefnogaeth ariannol ac mae'r Gymdeithas Gymraeg wedi bod yn hael yn rhoi lle ar dir y gymdeithas a chyfrannu at y prosiect trwy werthu darnau o dir o'u heiddo hefyd.

Rydym yn fawr obeithio y bydd yr adeiladu yn dechrau cyn bo hir ond rhaid i ni gydnabod efallai bydd blwyddyn arall o beilot wrth aros am le addas ar gyfer ysgol swyddogol a fydd yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn wrth i'r plant dyfu yn hŷn. Dechreuwn efo'r plant lleiaf a'r gobaith ydy gweld nhw yn gorffen yr ysgol gynradd yn 2020! Prosiect hir dymor wir!

Pa ffordd well i gofio ymdrechion y gorffennol trwy geisio adeiladu sylfaen i'r dyfodol?

Clare Vaughan Cydlynydd Dysgu

Am fwy o wybodaeth am yr ysgol http://patagonia2015.com/cymysgolgymraeg.html neu ymunwch â'n grŵp ar Facebook Ysgol Gymraeg Trevelin Cwm Hyfryd. Sonnir am ysgol ddwyieithog ond mewn gwirionedd bydd yr ysgol yn 'amlieithog' oherwydd bydd o leaif dwy iaith yn cael eu cynnig i'r plant!


YSGOL DDWYIEITHOG
CYMRAEG-SBAENEG
TREVELIN
ANDES
PATAGONIA
Ein cynllun erbyn 2015 yw Ysgol Ddwyieithog Cymraeg-Sbaeneg, amlieithog, agored i'r cyhoedd ond dan llywodraeth breifat, er mwyn cynyddu nifer siaradwyr cymraeg yr ardal ac hefyd er cynnig addysg rhagorol a chyfoethog. Mae'r cynllun arbrofol wedi cychwyn yn mis Mawrth 2014. *ysgolgymraegyrandes.com*
PLANTA BAJA
FACHADA
Andes
patagonia2015.com
CANMLWYDDIANT A HANNER Y WLADFA GYMREIG
SESQUICENTENARIO
DE LOS GALESES EN EL CHUBUT
Pwyllgor
Comisión 150
Cordillera
Andes

Menter
PATAGONIA

Aethpwyd ati yn 2009 i osod amcanion Menter Patagonia sef:

1.Rhaid wrth ymdrechion gwirioneddol i normaleiddio defnydd o'r iaith mewn trawstoriad o sefyllfaoedd cymdeithasol – ymestyn ei defnydd cymdeithasol.

2. Dylid anelu at gynnal amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, achlysuron a gweithgareddau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg – rhwng 10 a 13 awr yr wythnos ym mhob lleoliad - rhwng 20 ac 26 awr yr wythnos o weithgareddau yn Nyffryn Camwy a chyfanswm cyfatebol yng Ngodre'r Andes. Gellid awgrymu gweithgareddau fel a ganlyn.

3. Gweithgarwch ar gyfer plant meithrin a'u rhieni. Gallai hyn fod yn gyfle i ennyn diddordeb yn y rhieni a'u cael i ddosbarth Cymraeg – o leiaf un sesiwn yr wythnos.

4. Gweithgareddau ar gyfer plant cynradd – chwaraeon, crefftau, peintio a gwaith llaw, gemau, natur a'r amgylchedd, dawnsio gwerin, grŵp canu/ actio, grwpiau chwarae fore Sadwrn, clybiau gwyliau, hobïau ac ati.( dwy haen oedran yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos)

5. Gweithgareddau ar gyfer plant oedran ysgol eilradd - Aelwyd yr Urdd, chwaraeon, gweithgareddau awyr agored, gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau cymdeithasol. (dwy sesiwn yr wythnos os yn bosibl).

6. Gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd ar gyfer oedolion. – cwis, sioe ffasiwn, coginio, blasu gwahanol fathau o fwyd ,grwpiau trafod neu ddadlau, grwpiau sgwrsio ,grwpiau gwahanol hobïau ,gwersi cyfrifiaduron ar gyfer dechreuwyr, clybiau cerdded, seiclo, mynydda, sgïo, clwb cinio, nosweithiau llawen, sgyrsiau a darlithoedd, dawnsio gwerin, picnic, gwibdeithiau, nosweithiau ffilmiau ac ati.

7. Gweithio'n glos â mudiadau lleol Cymreig i'w hysbrydoli - megis yr *eisteddfod, cyrddau cystadleuol, y capeli.*

8. Ceisio ymestyn defnydd gweledol o'r Gymraeg yn lleol. – y radio, yr amgueddfeydd ac ati.

Mae cyllid gan y Cynllun i gyflogi un person ar gyfer gweithgareddau Menter Patagonia. Felly er mwyn sicrhau bydd presenoldeb gan y Fenter yn y ddwy ardal hanner swyddi ( 0.5) sydd yn y ddau ddalgylch mewn gwirionedd.

Treuliwyd 50% o amser Eluned Evans ar waith y Fenter yn Yr Andes a 50% o amser Iwan Madog Jones yn Y Dyffryn.

**Eluned Owena – Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn Nhrevelin ac Esquel, yr Andes 2014**

| | **Digwyddiad** | **Dyddiad** | **Niferoedd** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Mawrth** | Swper Clwb Gwawr Esquel | Nos Wener, Mawrth 28ain | 3 | |
| **Ebrill** | Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion Esquel gyda the i ddilyn | Dydd Sul, Ebrill 6ed | 15 | |
| | Cwrdd Diolchgarwch Capel Bethel Trevelin | Dydd Sul, Ebrill 13eg | 11 | |
| | Hwyl y Pasg, Trevelin | Dydd Mercher, Ebrill 16eg | 23 a 4 athro | Helfa wyau Pasg a gemau amrywiol |
| | Clwb Gwawr Esquel | Nos Sadwrn, Ebrill 26ain | 3 | Noson 'reflexology' wedi'i threfnu gan Liliana Melnik |
| **Mai** | Helpu trefnu a chymryd rhan yn y Gymanfa Ganu yn dilyn Eisteddfod Trevelin | Dydd Sul, Mai 4ydd | Neuadd hanner lawn | |
| | Siôn a Siân Trevelin | Nos Wener, Mai 16eg | 20 | Gweithgaredd lwyddiannus iawn |
| | Sesiwn adolygu Wlpan 2 Esquel | Bore Sadwrn, Mai 17eg | 4 | |
| | Noson yng nghwmni Llŷr Gwyn, Esquel | Nos Wener, Mai 23ain | 18 | Braf gweld nifer o Drevelin wedi dod |
| **Mehefin** | Twmpath Esquel yng nghwmni Jessica Jones a grŵp dawnsio gwerin Cwm Hyfryd | Nos Wener, Mehefn 6ed | 18 | Roedd y mwyafrif a oedd yno dan 17 oed! |
| | Eisteddfod Ddwl Trevelin | Nos Iau, Mehefin 19eg | 11 | |
| | Oedfa'r plant yn Nghapel Bethel Trevelin yn y bore ac oedfa yng Nghapel Seion Esquel | Dydd Sul, Mehefin 22ain | Trevelin – 31<br>Esquel – 12 | Cafwyd te yn y Ganolfan yn dilyn yr oedfa yn Esquel – cyfle i bawb |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gyda the i ddilyn yn y prynhawn | | | gymdeithasu a sgwrsio yn y Gymraeg |
| **Gorffennaf (yng Nghymru)** | Yn ystod yr wythnosau yng Nghymru, fe wnes i barhau i weithio – cyhoeddais rifyn o 'Llais yr Andes', gwirfoddolais ar stondin Yr Andes yn y Sioe Frenhinol am ddau ddiwrnod, es i ddathliad Gŵyl y Glaniad yn y Bala, wnes i gyfarfod ag athrawon Coleg Llanymddyfri i drafod ceisiadau yn yr Eisteddfod Gendlaethol yn Llanelli, yn ogystal â chyfarfod ag arweinwyr Taith yr Urdd, bûm yn siarad ym mhabell Cymdeithas Cymru-Ariannin yn yr Eisteddfod, trefnais gyfarfod gyda Maer Aberteifi ac hefyd wnes i gyfarfod â chwmni @tebol yn Aberystwyth. | | | |
| **Awst** | Noson i groesawu'r pedwar fuodd yng Nghymru yn ôl, Esquel | Nos Wener Awst 29ain | 30 | |
| **Medi** | Oedfa yng Nghapel Seion Esquel gyda Wyn James yn pregethu | Dydd Sul, Medi'r 7fed | 14 | |
| **Hydref** | Coffi a chyfnewid, Trevelin | Dydd Sadwrn, Hydref 4ydd | 3 | Roedd hi'n ddiwrnod hynod o braf a nifer wedi mynd i'r llyn yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hytrach mae'n siŵr!! |
| | Diwrnod Shwmae, Trevelin | Dydd Mercher, Hydref 15fed | 23 | Prynhawn o weithgareddau gyda'r plant |
| | Cyngerdd yr Urdd, Ffermwyr Ifanc a phobl leol, Capel Seion a Chanolfan Esquel | Nos Fercher, Hydref 29ain | Neuadd lawn | |
| | Gêm bêl droed rhwng criw'r Urdd ac ysgol Puerta del Sol, Trevelin | Dydd Gwener, Hydref 31ain | Dros 50 | Gwnaethant ganu'r ddwy anthem a chyfnewidiwyd baneri Cymru a'r Ariannin wedi'u harwyddo ar y diwedd |
| | Twmpath a chlocsio gyda grŵp Celtic Feet, Trevelin | Nos Wener, Hydref 31ain | Oddeutu 40 | |
| **Tachwedd** | Gweithdai yn Esquel | Dydd Sadwrn, Tachwedd 1af | Oddeutu 45 | Gwers Sbaeneg gyda Liliana, dysgu gwneud alfajores gyda Natalia a Sandra, dysgu am y traddodiad o yfed mate gyda Mike a chwarae gemau gyda'r plant meithrin dan arweiniad Marina |
| | Oedfa deulu yng Nghapel Bethel Trevelin dan arweiniad yr Urdd a phlant Meithrin Trevelin | Dydd Sul, Tachwedd 2ail | Roedd y capel yn llawn | Trefnais i'r gwasanaeth, ond unigolion o daith yr Urdd oedd yn cymryd rhan |
| | Oedfa yng Nghapel | Dydd Sul, | Roedd y capel | Llwyddiannus dros |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Bethel Trevelin yng nghwmni Huw Edwards a'r BBC gyda chinio twrci i ddilyn | Tachwedd 23ain | yn llawn | ben a nifer fawr wedi aros i fwynhau cinio dydd Sul (twrci, stwffin, grefi ayb.) gyda ni'n y festri |
| | Seremoni diwedd blwyddyn Ysgol Gymraeg Trevelin yng Nghapel Bethel (cyd-drefnu) | Nos Wener, Tachwedd 28ain | Roedd y capel yn llawn | Cyfle i blant a staff yr ysgol ddangos eu doniau a derbyn tystysgrifau |
| | Meicro Eisteddfod Esquel (cyd-drefnu) | Nos Sadwrn, Tachwedd 29ain | Roedd y Ganolfa yn llawn | Dyma weithgaredd diwedd blwyddyn Esquel, ac roedd hi'n noson lwyddiannus tu hwnt. Myfi oedd y beirniad |
| **Rhagfyr** | Oedfa yng Nghapel Seion Esquel gyda the Nadoligaidd i ddilyn yn y Ganolfan | Dydd Sul, Rhagfyr 7fed | Heb ddigwydd eto | |

Yn ychwanegol, dw i wedi gwneud y canlynol:

- Cyhoeddi tri rhifyn o 'Llais yr Andes'.
- Cyhoeddi Cylchlythyr ysgolion yr Andes i blant Cymru gydag ymateb penigamp wrth ysgolion Cymru. Roeddwn i wedi bwriadu cyhoeddi rhagor, ond gan y bûm yn cynorthwyo @tebol dipyn gyda'u hadnodd addysgol newydd i bontio plant Cymru a'r Wladfa, ches i ddim amser yn anffodus.
- Ymweld ag henoed yr ardal (er bod hyn wedi bod yn anodd yn ystod y misoedd diwethaf gyda Thaith yr Urdd a'r Eisteddfodau).
- Cynnig Clwb Siarad wythnosol lwyddiannus yn Nhrevelin. Yn hytrach na chyfarfod yn yr ysgol, roeddem ni'n cyfarfod yng nghaffi El Único yn y dref. Daeth 9 person gwahanol i'r clwb, weithiau pawb yn dod a throeon eraill 3 neu 4. Dw i wedi cyfieithu bwydlen y caffi i'r Gymraeg.

- Cynnig Clwb Ti a Fi yn Nhrevelin.  Bu'n llwyddiannus iawn ar y dechrau gyda 10 yn dod ar un adeg ond ers rhai misoedd mae wedi bod yn dawelach gan fod dwy o'r mamau wedi cael babanod – bydd mwy felly'n dod flwyddyn nesaf!

- Cynnig cwrs Cymraeg yn y Gweithle i staff Canolfan Dwristiaid Trevelin gydag Estela Jones.  Bu Soraya Williams yn gwneud yr un peth yn Esquel.

- Cyfieithu bwydlenni, pamffled Trevelin, fideo fer am Drevelin, arwyddion a dogfennau/llythyron ar gais bobl o fewn y Gymuned.

- Cymryd rhan yn seremonïau Eisteddfod y Wladfa a chystadlu ac arwain Eisteddfod Trevelin drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Helpu gydag ymweliad Aelodau Seneddol Llundain a Wyn James, Bill Jones a Walter Brooks o Brifysgol Caerdydd.

- Cynorthwyo Stephanie Davies gyda'i phrosiect 'Hiraeth'.

- Mynd i gyfarfodydd Pwyllgor Cymdeithas Bro Hydref/Ysgol Gymraeg Trevelin/Pwyllgor Dathlu 150 a chymryd rhan mewn seremonïau arbennig.

- Arsylwi yn Ysgol yr Hendre gydag Isaías Grandis am ddiwrnod.

- Cefnogi digwyddiadau'r cymunedau – Encuentro Céltica (helpu gyda stondin yr ysgolion a chanu gyda'r teulu Winter ar y llwyfan), cymryd rhan yn swper Dydd Gŵyl Dewi Esquel, dawnsio gwerin gyda grŵp Cwm Hyfryd yn yr Expo Trevelin a sawl cyngerdd arall, Te yn y Ganolfan, dramâu ayb.

- Cyd-lynu taith Urdd Patagonia 2014 lwyddiannus iawn a bod yn barod i groesawu grwpiau eraill o Gymru yn ogystal ag unigolion drwy gydol y flwyddyn.

- Hyfforddi plant a phobl ifanc ar gyfer cystadlaethau adrodd/dawnsio/llenyddol Eisteddfod Puerta del Sol ac Eisteddfod Trevelin.

- Dewis testunau llenyddol a llwyfan ar gyfer Eisteddfod Trevelin 2015 ar y cyd gyda Llŷr Gwyn a pharatoi'r rhaglen Gymraeg ar gyfer Eisteddfod Ysgol Puerta del Sol 2014.

- Ceisio annog myfyrwyr a thiwtoriaid Esquel a Threvelin i fanteisio ar bob cyfle posib, boed yn sefyll arholiad, ysgrifennu darn i 'Llais yr Andes', ymgeisio am ysgoloriaeth, gwneud cais i fod yn rhan o brosiect Mimosa Theatr Clwyd, cystadlu mewn Eisteddfodau, anfon erthyglau at gylchgronau a phapurau newydd megis 'Lingo' a'r 'Cymro'.  Mae'n dda gen i ddweud bod sawl erthygl wedi ymddangos yn y Wasg Gymraeg, bod sawl person ifanc wedi gwneud cais i fod yn rhan o'r prosiect Mimosa, bod tri wedi llwyddo'n eu harholiad a bod Jeremias Knobel wedi ennill ysgoloriaeth

Tom Gravel (dw i wedi'i gynorthwyo gyda'r Visa). Dw i wedi trefnu ymweliad gyda Choleg Llanymddyfri ym mis Ionawr.

- Siaradais ar Radio Cymru er mwyn codi proffil y gwaith yma a threfnais fod dosbarth yr arddegau yn Esquel yn siarad ar 'Ar y Marc' Radio Cymru, yn ogystal â dau diwtor a dwy fyfyrwraig yn Nhrevelin.

- Yn dilyn apêl gen i ar Radio Cymru, daeth nifer enfawr o gardiau post a llythyron oddi wrth unigolion ac ysgolion yng Nghymru (ac maen nhw'n dal i ddod drwy'r post yn wythnosol gyda rhai o Awstralia a'r Unol Daleithiau hefyd!) Maen nhw wedi bod yn adnodd gwerthfawr tu hwnt a mawr yw ein diolch amdanynt - mae'r plant a'r myfyrwyr wedi cael gwir fwynhâd yn eu gweld, a dysgu mwy am bentrefi a threfi Cymru. Bydd nodyn o ddiolch yn cael ei anfon at yr ysgolion (sy'n rhy niferus i'w rhestru yma!) a bydd y cyfan yn cael ei arddangos mewn arddangosfa arbennig yn amgueddfa Trevelin er mwyn i'r gymuned ehangach fedru'u mwynhau.

- Yn syth ar ddechrau'r flwyddyn eleni, wnes i agor cyfri Youtube – Menter Patagonia yr Andes – ac yno mae nifer o fideos i'w mwynhau. Heb os, y fideo fwya poblogaidd ydy 'Hapus' sy'n dangos plant a myfyrwyr Esquel a Threvelin yn dawnsio'n hapus braf!

- Uwchlwytho lluniau i roi ar dudalen facebook Menter Patagonia a rhoi pob darn o newyddion arni hefyd. Anfon newyddion yn gyson at Ceris Gruffudd, ysgrifennydd Cymdeithas Cymru-Ariannin.

- Sicrhau bod drws Capel Seion Esquel a Chapel Bethel Trevelin ar agor drwy gynnal oedfaon misol (oedfa deulu weithiau hefyd) gyda chyfle i gymdeithasu dros baned a theisen ar ôl y gwasanaeth.



Pethau Bychain

Gwnewch y pethau bychain



**Gweithgareddau Menter yn y Dyffryn ( Iwan Madog Jones)**

Galw twmpath ddawns ar gyfer Dydd Gwyl Dewi

Cwrdd â siaradwyr ifanc yn La Plata ym mis Chwefror a mis Gorffennaf

Ffair Amaethyddol yn y Gaiman, hysbysebu gwersi a gwneud gweithgareddau gyda'r plant

Noson Gyrri yn Nhrelew, a gemau i ymarfer y Gymraeg

Sadwrn Siarad

Eisteddfod Trevelin – dawnsio gwerin gyda Ysgol Gerdd, a pharatoi grŵp Cyd-adrodd

Ffair Lyfrau . Hysbysebu gwersi a rhannu stondin gyda'r Ysgol Feithrin.

Noson Geiriau gyda Llŷr Lewis yng Ngwalia Lan

Noson Cwis a Ffarwelio yn y Gaiman

Eisteddfod Ddwl yn Nhrelew

Mynychu Eisteddfod Camwy

Hyfforddi grŵp cyd-adrodd plant ar gyfer Eisteddfod Micro Bethel, a chyflwyno yn y Gymraeg

Mynd i wylio gêm bêl-droed yr Ariannin gyda dosbarth Gwanwyn yn ystod Cwpan y Byd

Helpu gyda diwrnod arbennig i'r Ysgol Feithrin er mwyn dathlu Pen-blwydd y Gaiman

Edrych ar ôl merched Prifysgol Caerdydd.

Noson Cwis a Chawl yn Nhrelew

Gwneud gweithgareddau gyda'r plant yn ystod Rhagbrofion yn Eisteddfod yr Ifanc

Hyfforddi grŵp cyd-adrodd plant ar gyfer Eisteddfod yr ifanc

Gweithio yn kiosco yn Eisteddfod yr ifanc, felly roedd pobl yn cael cyfle i ddefnyddio y Gymraeg mewn sefyllfa gwbl naturiol wrth fynd yno i brynu danteithion

Helpu trefnu a hysbysebu sgwrs Yr Athro Wyn James ( Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ) ar Eluned Morgan

Trefnu gwasanaeth Cymraeg yn y Capel yn Bethel ar y thema dwylo. Mynychu a chymryd rhan mewn gwasanaethau eraill.

Noson Munud i Ennill yn y Gaiman

Cyfrannu at bapur y Drafod

Mynd i ymarferion dawnswyr Gwanwyn yn Nhrelew yn wythnosol.

Mynd i ymarferion côr yn y Gaiman tan Wyliau'r Gaeaf

Helpu hyfforddi parti cyd-adrodd ar gyfer Eisteddfod Trelew

Creu ac arwain cân actol ar gyfer Eisteddfod Trelew

Cysylltu ag unrhyw Gymry oedd yn cysylltu â fi i gael gwybodaeth neu gymorth.

**Ymweliadau**

Pan fo amser yn caniatáu rwyf wedi bod yn mynd i wneud sesiynau yn Ngholeg Camwy ac ym Mryn Gwyn. Credaf ei bod yn bwysig iawn bod y disgyblion yn cael cyfle i ymarfer gyda rhywun o Gymru. Wrth gerdded drwy'r Gaiman mae llawer o'r plant yn dod i gyfarch, ac ymarfer y Gymraeg sydd ganddynt.
Yn ystod cyfnod Rebeca Henry yng Nghymru roeddwn yn cynnal eu gwersi gyda Blwyddyn 6 ddwywaith yr wythnos. Penderfynom wneud gweithdy drama er mwyn rhoi dimensiwn ymarferol i'w Cymraeg a rhoi cyfle iddynt ymarfer eu Cymraeg mewn cyd-destun gwahanol.

**Taith yr Urdd**

Fel bob blwyddyn rwyf wedi trefnu gweithgareddau ar gyfer yr Urdd gydag amserlen lawn bob diwrnod. Mae'r holl waith wedi cymryd llawer o amser. Hyfryd yw gweld plant a phobl ifanc yn disgwyl am eu hymweliad trwy'r flwyddyn.

**Gwefannau Cymdeithasol**

Rwyf wedi defnyddio nifer o wefannau cymdeithasol er mwyn hysbysebu, a gadael i bobl wybod beth sydd yn digwydd yma yn y Dyffryn. Credaf ei bod yn bwysig defnyddio’r rhain oherwydd bod mwy a mwy o bobl yn eu defnyddio, yn arbennig y to ifanc yng Nghymru ac yma yn y Wladfa. Mae gan y Fenter gyfrif trydar, Facebook, instagram a youtube.

Cyfrif **Trydar** https://twitter.com/MenterPatagonia . Mae 612 o bobl yn dilyn ac mae 201 trydar o'r cyfrif.

Cyfrif **Facebook** https://www.facebook.com/groups/115602435667/?fref=ts .Mae Facebook yn wefan boblogaidd iawn yma yn yr Ariannin, yn fwy poblogaidd nag yng Nghymru gyda nifer o bobl o bob oed yn ei ddefnyddio. Rwyf wedi bod yn hysbysebu a rhannu lluniau ar y cyfrif yma.

Cyfrif **Instagram** http://www.oninstagram.com/profile/menterpatagonia . Agorais gyfrif

Instagram eleni, ac mae 75 llun wedi cael ei roi ar y cyfrif hyn yn hyn. Fel arfer, rwy'n rhoi rhyw 2-3 llun o bob digwyddiad rwy'n ei gynnal, ac yn cyhoeddi ambell lun arall a fyddai o ddiddordeb i bobl.

Cyfrif **Youtube** Menter Patagonia y Dyffryn https://www.youtube.com/channel/UCcsD7DUWF1xiAVSJSkkcfsg/videos . Mae nifer o fideos wedi cael eu creu, ac mae dau o'r fideos hyn wedi cael eu dangos ar raglen Heno ar S4C ac ar raglen blant Tag yn ystod cwpan y byd. Mae gan Heno yn arbennig ddiddordeb mewn dangos mwy o fideos o bethau o'r Wladfa, ac yn bendant byddai hyn yn rywbeth y dylai ei ddatblygu yn enwedig gyda dathliadau’r flwyddyn nesaf.

**Whatsapp**
Rwyf yn cysylltu a sgwrsio gyda nifer o bobl yn ddyddiol yn y Gymraeg yma yn y Dyffryn, yn yr Andes, La Plata a Buenos Aires. Drwy sgwrsio maent yn cael ymarfer eu Cymraeg mewn ffordd wahanol. Yn sicr, mae'n bwysig bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio a bod presenoldeb ganddi yn y byd technolegol.













**Arwyddion tairieithog yn Nhrevelin**

**Taith yr Urdd 2014**



Trefnir taith yr Urdd yn flynyddol gyda chymorth yr athrawon/swyddogion Menter Patagonia o Gymru dan arweiniad y Cydlynydd Dysgu. Cynhaliwyd y daith rhwng 23/10/14 a 02/11/14 ond cyn mynd roedd rhaid i'r bobl ifainc godi £2,400 yr un a llwyddodd pob un i gyrraedd eu targed.

Aeth 25 o aelodau'r Urdd i'r Wladfa er mwyn cael blas ar ddiwylliant Y Wladfa yn ogystal â gwneud gwaith gwirfoddol megis helpu mewn ysgolion meithrin , ymweld â'r henoed yn yr ardal sy'n siarad Cymraeg ac wrth gwrs cwrdd â phobl ifainc yno a chryfhau'r cysylltiadau a chyfeillgarwch rhwng y ddwy wlad.

Dyma rai o uchafbwyntiau'r daith yng ngeiriau'r bobl ifainc eu hunain.

*''Siarad gydag henoed yr ardal drwy gyfrwng y Gymraeg'*

*'Cael treulio amser bythgofiadwy gyda'r gymdeithas Gymraeg'*

*'Cyfarfod a'r henoed, profiad gwirioneddol anhygoel'*

*'Golygfeydd gwych, bwyd ffantastig a'r twmpath yn hwyl.'*

*'Golygfeydd gwych a siarad Cymraeg !'*



## ASTUDIAETHAU ACHOS

Dosbarth Siaradwyr Trelew ydyn ni. Rydym yn cyfarfod bob dydd Mawrth am awr yng Nghanolfan Dewi Sant Trelew. Mae'r chwech ohonom yn mwynhau cymdeithasu trwy'r hen Iaith gan ein bod wedi ein magu ar aelwydydd Cymreig ac yn falch iawn o hyn.
Cawn amser i ddarllen, sgwrsio ac ysgrifennu gan ddysgu geiriau newydd yn wythnosol ac yn ogystal chwerthin a chael llawer o hwyl. Mae Anita ac Angelica wedi bod yng Nghymru ond rydym ni gyd yn breuddwydio yn gyson am gael gweld ardaloedd ein cyndeidiau acw. Mae dysgu gwybodaeth hanesyddol a daearyddol am Gymru wedi rhoi llawer o foddhad i ni yn y gwersi.

Rhaid dweud ein bod yn lwcus iawn o fod yn rhan o'r Eisteddfodau a'r Cymanfaoedd Canu sy'n cael eu cynnal yn fisol gan Gymdeithas Gymraeg Dewi Sant, Trelew.
Ar ddechrau'r Gaeaf sef Gorffennaf yr 2il eleni cawsom wahoddiad gan blant Blwyddyn 2, Ysgol yr Hendre i ymuno mewn gweithgareddau yn yr ysgol. Mae ein hathrawes Gymraeg Eluned Jones yn dysgu yn yr Hendre ar fore Mawrth a bore Mercher felly roedd creu perthynas agos fel yma yn arbennig gan fod gan ddwy ohonom wyresau yn yr ysgol. Profiad ardderchog, trawiadol oedd gweld y plant yn siarad Cymraeg yn naturiol trwy chwarae, dawnsio, canu ac adrodd.

Rydym yn edrych ymlaen i ymweld eto ym mis Hydref gan fynd i ddosbarth Blwyddyn 1. Cawsom groeso anhygoel ac rydym yn teimlo'n falch fod y plant yn cael Addysg Ddwyieithog o safon uchel sy'n rhoi pwyslais ar y pethau da.
Cynhelir Clwb Cymraeg yn yr ysgol ar nos Fawrth a nos Iau sy'n rhoi cyfle pellach i'r disgyblion weithio'n gyfan gwbl trwy'r Gymraeg. Mae gwersi i oedolion sef athrawon a rhieni yn ogystal.

Braf yw nodi hefyd fod Adran yr Urdd o ddiddordeb i'r plant hynaf wrth baratoi am eu hymweliad a Chymru y flwyddyn nesaf.

Credwn yn gryf fod Prosiect yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia yn amlwg wedi rhoi cyfle i bawb yma ddefnyddio'r Iaith Gymraeg. Rydym ni gyd fel Siaradwyr ers cychwyn y cynllun yn teimlo'n llawer mwy hyderus ac awyddus iawn i gefnogi'r Gymraeg yn y gymuned.

Diolch am gael bod yn rhan o ddosbarth Siaradwyr Trelew,

**Ana Richards, Anita Lewis, Angelica Rees, Rebecca Davies, Ena Hughes Williams a Maria Evans.**

15 Awst 2014



Mae Ysgol y Gymraeg wedi dathlu ei chyfraniad sylweddol at ymchwil ac addysgu yn y Wladfa ym Mhatagonia mewn dau ddigwyddiad yn ddiweddar.

Cyflwynwyd rhodd gan Rebeca White, athrawes ysgol gynradd o Batagonia, i Brifysgol Caerdydd ar ran Cymdeithas Dewi Sant, Patagonia.

Ar hyn o bryd mae Rebeca yn mynychu Ysgol Haf y Ganolfan Cymraeg i Oedolion (sy’n rhan o Ysgol y Gymraeg), ac mae'n gydlynydd y pwyllgor sy'n gyfrifol am drefnu dathliadau 150 mlwyddiant y Wladfa ym Mhatagonia, a gynhelir yn 2015.

Cyflwynwyd y rhodd i gydnabod gwaith y Ganolfan fel rhan o brosiect sy'n hyrwyddo dysgu Cymraeg yn ardal Chubut ac fe’i derbyniwyd gan yr Athro Hywel Thomas, y Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil, Arloesi a Menter, ar ran y Brifysgol.




Yn yr ail ddigwyddiad, cafwyd ymweliad gan Lywodraethwr talaith Chubut, Martin Buzzi, â'r Brifysgol i hyrwyddo 150 mlwyddiant y Wladfa ym Mhatagonia. Llofnodwyd Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth gan y Llywodraethwr Buzzi a'r Athro George Boyne (Dirprwy Is-

Ganghellor, Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol) yn addo partneriaeth a chydweithio parhaus rhwng Prifysgol Caerdydd a thalaith Chubut.

Mae Canolfan Uwchefrydiau Cymry America yr Ysgol eisoes yn cyfrannu at y dathliadau pen-blwydd gyda chynhadledd ryngwladol i'w chynnal yng Nghaerdydd fis Gorffennaf 2015. Yn ogystal, dan nawdd Banc Santander, mae dau fyfyriwr israddedig yn treulio mis ym Mhatagonia ar hyn o bryd yn cael profiad gwaith wrth addysgu'r Gymraeg yno, a bydd tri aelod o staff yr Ysgol yn teithio i'r Ariannin ym mis Medi i fynychu cynhadledd ym Mhrifysgol Patagonia.

Dywedodd Pennaeth Ysgol y Gymraeg, yr Athro Sioned Davies: "Rydym yn falch iawn o'r holl gysylltiadau sydd yn bodoli rhwng Ysgol y Gymraeg a'r Wladfa. Mae'r Wladfa yn un o brif feysydd ymchwil ein Canolfan Uwchefrydiau Cymry America, ac mae nawdd gan Fanc Santander, dan ei Gynllun Prifysgolion Santander, yn ein galluogi i ddatblygu cysylltiadau â nifer o sefydliadau yn yr Ariannin, yn enwedig gyda Phrifysgol Genedlaethol Patagonia.

"Roedd y digwyddiad cyntaf yn dathlu ein cysylltiad arbennig rhwng y Wladfa a'n Canolfan Cymraeg i Oedolion - mae'r Ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Cyngor Prydeinig i anfon athrawon Cymraeg allan i'r Wladfa.

"Mae hi hefyd yn bleser croesawu myfyrwyr o Batagonia i'n cwrs haf blynyddol. Mae nifer o'r myfyrwyr bellach yn rhugl yn y Gymraeg ac yn cyfrannu at yr adfywiad ieithyddol yn ardal Chubut a thu hwnt."

**Penawdau Llun**

1. (o'r chwith i'r dde) Yr Athro Hywel Thomas, yr Athro Sioned Davies, Rebeca White a Gareth Kiff (Cyfarwyddwr Dysgu, Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg)

2. Y Llywodraethwr Buzzi a'r Athro George Boyne yn llofnodi'r Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth

CYMRAEG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS
Canolfan Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff and the Vale of Glamorgan Centre

PRIFYSGOL CAERDYDD
CARDIFF UNIVERSITY

**YMWELIAD GAN AELODAU SENEDDOL SAN STEFFAN ( Pwyllgor Dethol Materion Cymreig )**

Bu tipyn o gynnwrf yn yr ardal pan ymwelodd criw o aelodau seneddol Llundain â ni yn ddiweddar. Nid bod ymwelwyr o'r Hen Wlad yn beth dieithr erbyn hyn, ond 'roedd rhain yn bwysig! Nhw sydd ar Bwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan. Rhagbrawf oedd eu taith o ddathliadau'r Cant a Hanner y flwyddyn nesa', sef 2015.
Cawsom wahoddiad gan lysgenhadaeth Prydain yn Buenos Aires i dderbyniad yn y Ganolfan yn Esquel, ac yno daethom i adnabod a chael sgwrs efo nhw.
David Davies oedd yr arweinydd ac ar ôl ei araith fer cafodd maer Esquel, Rafael Williams ysgwyd llaw a dweud rhai geiriau i ddiolch am yr ymweliad. Cristin Jones oedd yn siarad ar ran Cymdeithas Gymraeg Esquel a Threvelin a Clare oedd yn cyfieithu.
Cefais y fraint o sgwrsio efo Siân James o ardal Abertawe, a deall ein bod wedi mynychu yr un brifysgol! Dechreuodd hi ar ei gyrfa wleidyddol wrth ymgyrchu ar ran y glowyr adeg y streiciau yn yr 80au.
Y diwrnod canlynol daethant i lawr i Drevelin i gapel Bethel ac i weld rhai o'r dosbarthiadau oedd yn y Tŷ Capel ar y pryd. Yno oedd Jessica a Sara efo plant Meithrin Un, wrthi'n brysur ac hefyd rhai o'r oedolion efo Eluned yn barod i gael sgwrs, ac allan ar y lawnt 'roedd Alwen a Nora wedi paratoi paned o de, a mate, gyda darn o deisen i'w croesawu. 'Roedden nhw wrth eu bodd! Yn enwedig gan fod y tywydd yn hynod o braf, ar bnawn hyfryd o hydref.

Cawsom hefyd fynd i swper yn Esquel cyn ffarwelio â nhw. Yno ces i gyfle i sgwrsio efo Anwen Rees. 'Roedd hi wedi ei magu ac yn byw yn Llundain, gan fod ei rhieni wedi symud yno i fyw ac yn cadw gwesty lle deiau llawer o Gymry i aros pan ar ymweliad â'r brifddinas. Nid aelod seneddol ydi hi ond y mae yn gweithio i'r Pwyllgor fel Arbenigwraig. 'Roedd hi'n 'nabod, ac yn dod â chyfarchion i mi, oddi wrth Huw Evans, sydd wedi gwneud bywoliaeth yn canu yn Llundain. Bachgen bach oedd o pan oeddwn i yn byw yn Llanio ger Tregaron, a byddem yn mynd i'r Ysgol Sul i'r Ysgoldy lle 'roedd ei daid a'i nain o yn byw. Mae'r byd yn fach!

Ar ôl bod yma yn yr Andes, aethant i lawr i'r Dyffryn i weld pobl Trelew, Gaiman, Madryn a gweddill yr ardal a chyfarfod â swyddogion y dalaith. Maent yn ôl adre ac yn eu gwaith erbyn hyn, gobeithio iddynt gael amser da yma yn yr Ariannin. Diolch iddynt am ddod i'n gweld!

*Mary Green*






MIKE dw i, dw i'n 15 oed, a dw i'n mynd i ysgol 735 (does ganddo fo ddim enw, dim ond rhif). Beth dw i'n hoffi'i wneud fwyaf yn fy amser hamdden ydy chwarae cerddoriaeth: fy ffefryn ydy'r fiola a dw i mewn grŵp o 14 person sy'n chwarae'r ffidil, y fiola a'r cello, yn Nhrevelin.

Hefyd, dw i'n hoffi arlunio, ac o ran chwaraeon, dwi'n hoffi nofio, pêl-droed, a reidio'r beic. Dw i'n hoffi darllen hefyd; nofelau, y Beibl...

Ces i fy ngeni yn Esquel, Chubut. Pan oeddwn i'n flwydd oed, aethon ni i Lundain am flwyddyn a hanner, achos cafodd fy nhad waith yno fel meddyg. Daethon ni yn ôl i'r Ariannin am flwyddyn, cyn symud unwaith eto, i Fangor, Cymru, oherwydd gwaith fy nhad.
Aethon ni (tri brawd a fi) i'r ysgol yna, a setlon ni yna.

Wnes i'r ysgol gynradd i gyd ym Mangor; yn gyntaf yn Ysgol y Faenol, wedyn symudais i i Ysgol Ein Harglwyddes, ac arhosais i yno tan flwyddyn pump. Ym mlwyddyn pump, es i i'r uned iaith yn Ysgol Maesincla, yng Nghaernarfon, am dymor. Dysgais i lawer o Gymraeg yno, a ges i amser gwych.
Wedyn, symudais i i Gae Top, ym Mangor. Ces i flwyddyn hyfryd yno.
Felly, ar ôl gwneud ysgol gynradd yng Nghymru, dechreuais i'r ysgol uwchradd yn Friars.
Tri mis yn Friars cyn dychwelyd i Esquel, i aros yn Rhagfyr 2009.
Dechreuais i'r ysgol uwchradd eto, a dyma fi... Anghofiais ran fawr fawr o fy Nghymraeg, ond dw i'n mynd i ddosbarth Cymraeg yn Ysgol Gymraeg yr Andes Esquel gyda Gladys ac Eluned ers blwyddyn ac mae bob dim yn dod yn ôl, a dw i wedi dysgu llawer o bethau newydd hefyd!




Helo!!!! Soraya, Luis a Rhys dyn ni. Dyn ni'n byw yn Esquel yn agos iawn i fynyddoedd Yr Andes. Dyma lun o'r gwyliau olaf gawson ni ar lan y môr. Er bod ni'n byw yn Esquel dyn ni´n dwlu ar y môr!

Mae Luis a fi yn siarad Cymraeg a mae Rhys wedi dechrau dysgu. Wel, dechreuodd e fynd i´r Cylch Babanod yn gyntaf a nawr mae e'n mynd i'r Ysgol Feithrin. Tair oed yw e.

Mae Luis a fi wedi bod yng Nghymru. Bues i dairgwaith a buodd Luis ddwy waith. Arhosais i ddau fis yn Llanbed a gwnes i gwrs WLPAN ym 1998. Yr ail dro bues i yng Nghaerdydd a gwnes i'r Cwrs Tiwtoriaid, hefyd ymwelais i ag Ysgol Y Strade yn Llanelli. Ysgol neis iawn. Ar ôl deng mlynedd, es i Gaerdydd eto. Y tro hwn arhosais i am chwe mis, ac astudiais i'r Cwrs Uwch a'r Cwrs Meistroli ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd y profiad yn fendigedig ! Nid dim ond astudio oedd fy mywyd yno, ond helpu mewn gwesty a chymdeithasu gyda phobl o wahanol rannau o'r byd.

Wel, buodd Luis yng Nghymru am chwe mis yr ail dro, helpodd yn Uned 5, S4C. Cafodd e brofiad neis iawn yna. Gwellodd ei Gymraeg yn fawr iawn oherwydd defnyddiodd yr iaith bob dydd.



Pam ddechreuon ni ddysgu'r iaith? Oherwydd mae'r ddau ohonon ni'n dod o deuluoedd Cymreig. Daeth fy hen hen daid, o'r enw Rhys Williams a'i deulu i Batagonia

ym 1867; a daeth  cyndad  Luis, o’r enw Thomas
Tegai Austin ar y Mimosa i Batagonia hefyd. Dyna pam mae Luis a fi wedi rhoi enw Cymraeg i’n mab, achos dyn ni’n teimlo bod yn rhaid i ni gadw traddodiad ein  cyndadau.

Ar 31ain o Fai - ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Meirionnydd ym mhresenoldeb Efa Gruffudd Jones ar ran Urdd Gobaith Cymru, Máximo Pérez Catán - Maer Tref Trelew, a`r Bonwr Rolando Griffiths ar ran Cymdeithas Eisteddfod Y Wladfa arwyddwyd Cytundeb Cyfnewid Diwylliannol sy`n cynnwys pob gweithgaredd ym myd y celfyddydau sy`n rhan o Eisteddfod Yr Urdd ac Eisteddfod y Wladfa.
Amcan y cytundeb yw atgyfnerthu ac ymestyn y dolennau diwylliannol sy`n nodweddiadol o`r ddwy wlad, yng Nghymru ac yn y Wladfa, ac annog, datblygu a chynnal yr iaith Gymraeg .
Drwy’r cytundeb bydd enillwyr unigol cystadlaethau cerddoriaeth a llefaru yn y Gymraeg yn cael y cyfle i gystadlu yn Eisteddfodau`r Urdd yng Nghymru (hyd at 25 oed) ac yn yr un modd bydd enillwyr unigol yng Nghymru yn cael cystadlu yn un o Eisteddfodau’r Wladfa.
Mae`r ddau fudiad yn cytuno i gynnal y cytundeb hwn tra bydd sefyllfa gymdeithasol ac economaidd y ddwy wlad yn caniatáu hynny. Cytunir hefyd i ailystyried unrhyw agwedd o`r cytundeb sydd angen sylw pellach.
Arwyddwyd y cytundeb gan Lywydd Pwyllgor Eisteddfod y Wladfa, Rolando Griffiths; Maximo Perez Catan, Maer Tref Trelew, a Phrif Weithredwr yr Urdd Efa Gruffudd-Jones.
Tynnwyd y llun ar ôl iddynt ddod oddi ar y llwyfan, yng nghwmni Efa Gruffudd-Jones (Prif Weithredwr yr Urdd) a Dyfrig Davies (Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod).



Llun : Tegwyn Roberts

**Cymraeg yn y gweithle**

Ers cwpwl o fisoedd, dw i wedi bod yn dilyn cwrs Cymraeg ar gyfer pobl sydd yn gweithio ym myd twristiaeth yn Swyddfa Dwristiaeth Esquel.



Ro'n i wedi clywed yr iaith hon yn cael ei siarad gan deuluoedd a ffrindiau ers dipyn o amser ac ro'n i'n meddwl ei bod hi'n hen bryd i minnau hefyd geisio dysgu siarad yr iaith. Hyd yn hyn, dw i ddim yn ei gweld yn rhy anodd a gydag athrawes dda fel Soraya Williams i'm helpu, dw i'n dysgu mwy a mwy drwy'r amser. I mi, y geiriau allweddol sydd yn agor drysau ac sydd yn gwneud i bobl fod mewn hwyliau da ydy 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'. Luis Carrizo



Eleni, dw i wedi cael cyfle i roi dosbarthiadau Cymraeg i staff Swyddfa Dwristiaeth Trevelin. Diolch i Alexis Tiznado, pennaeth Twristiaeth Trevelin am gytuno i hyn. Dw i'n eu dysgu nhw i ynganu enwau megis Capel Bethel, Bedd Malacara a llawer o lefydd eraill yn gywir ac hefyd yn dysgu nhw sut i gyfarch yn y Gymraeg. Mae'r pedwar ohonyn nhw yn dda iawn ac yn hoffi dysgu'r pynciau gwahanol. Mae'n brofiad hyfryd i fi hefyd. Estela Jones

Llais yr Andes Gorffennaf 2014

## Argymhellion 2013 : Adroddiad Cynnydd

1) **Codi cyflog tiwtoriaid lleol os yw'n ymarferol bosib. Ar hyn o bryd telir $35 yr awr iddynt i gymharu â rhyw $60 yr awr i athrawon y dalaith. Oherwydd chwyddiant yn Yr Ariannin a gwendid y bunt mae gwerth ein harian yn llawer llai nag yn y gorffennol. Mae talu $35 yr awr gyfystyr â thalu rhwng £4 a £5 yr awr yng Nghymru. Oherwydd hynny nid ydym yn gallu cadw nifer o athrawon brodorol fyddai'n medru dysgu'r iaith. Yn yr un modd nid yw ein cyflogau i'r Cydlynydd a'r athrawon o Gymru yn ddigonol erbyn hyn ac mae eu cyflogau wedi gostwng yn sylweddol mewn termau real yn ystod y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf.**

   ***Er nad oedd yn bosib codi cyflogau oherwydd diffyg cyllid penderfynwyd talu swm, gosod mewn punnoedd bob mis sy'n golygu , oherwydd chwyddiant uchel yn Yr Ariannin, bod gwerth yr arian yn 'cynyddu' mewn termau real.***

2) **Penodi arbenigwyr plant ac oedolion i'r Dyffryn. Mae hyn yn bwysig o ran cynnal y cynnydd sydd wedi bod mewn niferoedd oedolion ac wrth gwrs i gynorthwyo yn y broses o sefydlu addysg gynradd ddwyieithog yn Gaiman.**

   ***Penodwyd arbenigwraig gwaith plant i ganolbwyntio ar ddatblygu addysg gynradd yn Gaiman ac yn sicr roedd penodiad Eluned Jones yn gymorth mawr yn y broses hon. Er nad oedd modd penodi arbenigwr Cymraeg i Oedolion llwyddodd Iwan Madog Jones i gynyddu niferoedd a chyflwyno ystod eang o gyrsiau yn llwyddiannus iawn.***

3) **Mae angen Cynllun Adfer niferoedd yn ardal Yr Andes – yn groes i'r hyn sydd yn digwydd yn y Dyffryn gwelwyd cwymp yn y niferoedd o 225 yn 2012 i 157 yn 2013 gyda llai o oedolion a phlant yn dysgu. Mae cynlluniau ar y gweill i ymestyn oriau cyswllt yr ysgol feithrin yn Nhrevelin ac mae rhai datblygiadau megis cyrsiau gweithle wedi denu pobl newydd. Fodd bynnag dylai fod yn bosib cynyddu niferoedd wrth ystyried bod hanner ein gweithlu llawn amser yn weithredol yn yr ardal.**

   ***Rhaid canmol pobl Yr Andes am ymateb mor gadarnhaol i'r her uchod. Roedd cynnydd sylweddol yn y niferoedd yn arbennig ymhlith plant oedran meithrin ac oedolion.***

4) **Parhau gyda darparu cyrsiau penodol e.e. Cymraeg yn y Gweithle, Cymraeg i Rieni. Dylai hyn fod yn ffordd o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.**

   ***Gwnaethpwyd hyn yn llwyddiannus iawn yn y Dyffryn ac yn yr Andes.***

5) **Dylid cynnal cyrsiau byrion megis cyrsiau blasu a chyrsiau paratoi yn ystod pythefnos cyntaf y flwyddyn addysgol newydd fel ffordd o gadw dysgwyr presennol a denu pobl newydd.**

   ***Roedd cynnydd mawr yn y cyrsiau hyn ( 17 o bobl yn 2013 ac 82 yn 2014). Mae hyn yn barod wedi arwain at gynnydd ar lefelau Mynediad.***

6) **Mae angen cydlynu ymgyrchoedd marchnata mwy effeithiol a chynhwysfawr yn lleol cyn dechrau'r flwyddyn addysgol newydd.**

   ***Defnyddiwyd dulliau traddodiadol ac electroneg yn effeithiol iawn e.e. cyfryngau cymdeithasol, sgriniau teledu mawr ar y stryd yn Nhrelew a phapur newydd y Swyddfa Ddiwylliant. Mae'r cynnydd mawr yn y ffigurau'n dystiolaeth o draweffaith hyn i gyd.***

7) **Adfer niferoedd mewn ysgolion cyfrwng Sbaeneg yn Yr Andes trwy Connecting Classrooms gan seilio prosiectau ar ddathliadau 2015.**

   ***Gan fod cymaint o waith yn cael ei wneud ar sefydlu ysgol ddwyieithog yn Yr Andes nid oedd modd blaenoriaethu hyn eleni. Fodd bynnag mae cynlluniau ar y gweill i ffurfio partneriaeth y flwyddyn nesaf.***

8) **Mae angen sicrhau bod y targedau sydd gan y Cynllun yn rhai CAMPUS. Mae gosod targed o 3 ysgol mewn blwyddyn yn anodd os nad yn amhosib ei gyrraedd wrth ystyried y nifer gymharol fach o ysgolion yn Y Wladfa sy'n dysgu'r Gymraeg.**

   ***Gosodwyd targed o 2 ysgol yn 2014. Mae dau gynllun ar y gweill gyda Ysgol Feithrin Gaiman a Coleg Camwy (Gaiman) gydag ysgolion yng Nghymru ac mae Ysgol yr Hendre ( Trelew) eisoes wedi trefnu partneriaeth gydag ysgol yng Nghymru.***

9) **Dylid cydweithio â'r Pwyllgor Dathliadau 2015 ac yn ceisio dylanwadu arnynt i sicrhau bod effaith barhaol i'r holl ddigwyddiadau a drefnir.**

   ***Erbyn hyn mae pawb yn cydnabod bod angen sicrhau 'gwaddol' yn sgil yr holl ddathliadau. Heb os byddai cyrraedd y sefyllfa lle bydd 3 ysgol gynradd ddwyieithog yn Y Wladfa yn waddol teilwng iawn.***

10) **I dynhau gweithdrefnau mewnol gan sicrhau bod mwy o fewnbwn gan yr athrawon/swyddogion sy'n dychwelyd yn y broses o lunio raglenni'r gwaith y flwyddyn ganlynol.**

   ***Cynhaliwyd cyfarfod briffio i'r swyddogion newydd cyn iddynt adael Cymru gyda'r cyn-swyddogion, a'r Cydlynydd Dysgu ar Skype, er mwyn esbonio natur y gwaith a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn. Roedd yr adborth i'r cyfarfod yn gadarnhaol iawn ac o ganlyniad roedd y swyddogion yn deall o'r cychwyn cyntaf yr hyn yr oedd angen iddynt ei wneud. Mae cynnydd mawr eleni yn awgrymu'n gryf bod y fath sesiynau'n fuddiol iawn.***

## ARGYMHELLION 2014

1) **Cefnogi a chynorthwyo'r ymdrechion i sefydlu a chynnal addysg gynradd ddwyieithog yn Gaiman a Threvelin.**

2) **Adeiladu ar gynnydd sylweddol 2014 a'r holl ddiddordeb ynglŷn â dathliadau 2015 er mwyn cynyddu niferoedd ar bob lefel. Dylid parhau gyda'r dulliau marchnata a ddefnyddiwyd eleni.**

**3) Cydweithio â'r llywodraeth leol a ffederal er mwyn cael mynediad i fwy o ysgolion cyfrwng Sbaeneg.**

**4) Parhau gyda chynnig cyrsiau byrion sydd ar agor i'r cyhoedd a mewn gweithleoedd er mwyn creu a datblygu cynulleidfaoedd newydd e.e. gyrwyr tacsi.**

**5) Cryfhau a chynyddu niferoedd ar gyrsiau Cymraeg i oedolion ar lefelau Sylfaen ac yn arbennig Canolradd.**

**6) Cynorthwyo yn y broses o hyrwyddo a chynnal partneriaethau Connecting Classrooms a cheisio sefydlu partneriaeth newydd rhwng Yr Andes ac ysgol yng Nghymru. Mae diffyg cyllid i ddod ag athrawon draw i arsylwi yng Nghymru yn ergyd i'r cynllun. Fodd bynnag mae modd defnyddio'r partneriaethau hyn fel ffordd o gyflawni'r un nod.**

**7) Yn hanesyddol oherwydd haelioni Cymdeithas Cymru Ariannin a chronfa elusennol mae wedi bod yn bosib ers degawdaudod â dysgwyr y Gymraeg draw i Gymru bob blwyddyn i fynychu Cwrs Haf Canolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd, *yn ogystal â dod ag athrawon draw i arsylwi – gweler pwynt 6 uchod*.**
**Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd hyn. Mae bron 60 o bobl wedi mynychu'r Cwrs Haf yn ystod y degawd diwethaf ac mae rhyw 80% o'r athrawon Cymraeg brodorol wedi dysgu neu wedi gwella eu Cymraeg ar y cyrsiau hyn. Fodd bynnag, oherwydd y sefyllfa economaidd nid yw'r ffynhonnell ariannol bwysig hon ar gael inni erbyn hyn. Byddai colli llif cyson o siaradwyr hyderus yn dychwelyd i'r Wladfa bob blwyddyn yn ergyd drom i ddyfodol y Gymraeg yno. O ganlyniad ac yn wyneb diffyg cyllid ychwanegol am y dyfodol rhagweladwy bydd angen i'r pwyllgorau lleol ystyried codi arian yn lleol, fel y gwnaethant ar ddechrau'r Cynllun, er mwyn cyfrannu at sicrhau bydd y traddodiad pwysig hwn yn parhau.**


juventud 2014